

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales



2018/19

Cyllid i fyfyrwyr — myfyrwyr amser llawn sy'n parhau



 /SFWales

 /SF_Wales

 YouTube /SFWFILM

A photograph of three young people (two men and one woman) smiling and looking towards the right. They are outdoors, possibly in a park or campus setting, with trees in the background. The lighting is warm, suggesting late afternoon or early morning. The image is partially obscured by a dark purple overlay on the right side.

Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

Yn ddibynnol ar eich amgylchiadau, eich cwrs a ble byddwch yn astudio, efallai y gallech gael amrediad o help a chymorth ariannol. Ac ni fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dalu unrhyw ffioedd dysgu ymlaen llaw!

Gallech gael grantiau a bwrsariaethau (na fydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl) a benthyciadau (y bydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl). Yn ogystal, mae help ychwanegol ar gael ar gyfer myfyrwyr sydd ag:

- anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, neu anhawster dysgu penodol megis dyslecsia neu ddyspracsia
- plant neu oedolion dibynnol

Canllaw yw hwn i fyfyrwyr sy'n parhau, a ddechreuodd eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Am ddiweddariadau rheolaidd, dilynwch ni ar Facebook, hoffwch ni ar Twitter a gwyliwch ein ffilmiau ar YouTube

 /SFWales

 /SF_Wales

 YouTube /SFWfilm



**Sut a phryd ddylwn
i ailymgeisio?**

Tudalen 4

Beth allaf ei gael?

Tudalen 5

Beth am ad-daliadau?

Tudalen 14

Cysylltiadau

Tudalen 15

Sut a phryd ddylwn i ailymgeisio?

Dylech ailymgeisio am eich cyllid i fyfyrwyr cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich arian pan fyddwch yn dychwelyd i'ch cwrs. Byddwn yn cysylltu â chi pan ddaw'r amser. I ailymgeisio, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**

Os ydych yn ailymgeisio am gyllid sy'n ddibynnol ar incwm eich cartref, bydd angen i'ch rhieni neu'ch partner fewngofnodi i'w cyfrif nhw i roi manylion i ni am:

- eu statws priodasol
- unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yr oeddent wedi ei rhoi i ni'r llynedd
- eu gwybodaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth flaenorol

Byddwn yn asesu eich cais ac yn anfon llythyr atoch yn nodi faint y gallwch ei gael.

Bydd angen i chi ailymgeisio am gyllid i fyfyrwyr erbyn 8 Mehefin 2018 er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich arian erbyn i'w cwrs gychwyn.

Os byddwch yn ymgeisio ar ôl y dyddiad hwn, efallai na fyddwch yn cael eich holl arian cyn i'ch cwrs gychwyn, ond byddwn yn ceisio cynnal asesiad cychwynnol er mwyn i chi gael rhywfaint o arian mor agos i ddechrau'ch cwrs ag y bo modd.

Ymgeisio am y tro cyntaf

Os ydych yn ymgeisio am y tro cyntaf, bydd angen i chi agor cyfrif cyllid i fyfyrwyr ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**

I ymgeisio, bydd angen bod gennych chi:

- eich pasbort
- manylion eich prifysgol a'ch cwrs
- eich manylion banc
- eich rhif Yswiriant Gwladol

Os ydych yn ymgeisio am gyllid sy'n ddibynnol ar incwm eich cartref, byddwn yn gofyn i'ch rhieni neu'ch partner am rif Yswiriant Gwladol a manylion eu hincwm personol.

Gallwch wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Beth allaf ei gael?

Benthyciad Ffioedd Dysgu

Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.

Faint allaf ei gael?

Hyd at £4,450.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Bydd, ond dim ond ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs ac mae'ch incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu, sef £25,000 y flwyddyn, £2,083 y mis neu £480 yr wythnos ar hyn o bryd.

Unrhyw beth arall?

Bydd eich prifysgol neu goleg yn pennu'ch ffioedd dysgu. Dylech holi iddynt faint a godir am eich cwrs fel bod modd i chi wneud cais am swm cywir y Benthyciad Ffioedd Dysgu.

Gallwch wneud cais am Grant Ffioedd i dalu'r gwahaniaeth rhwng uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael a'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariannir yn breifat, gallech gael benthyciad o hyd at £6,165 tuag at eich ffioedd dysgu. Efallai y bydd rhai cyrsiau mewn prifysgolion neu golegau preifat yn costio mwy na hyn, ond chi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw wahaniaeth.

Byddwn yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu'ch coleg yn uniongyrchol ar ffurf tri rhandaliad yn ystod y flwyddyn academiaidd. Os byddwch yn gadael, yn cymryd seibiant neu'n gorffen eich cwrs yn gynnar, bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yr ydym wedi'u talu i'ch prifysgol neu'ch coleg.

Pryd y telir taliad y Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu goleg

Faint o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu a delir i'ch prifysgol neu goleg

Ar ddechrau tymor 1

25% o'r ffioedd dysgu

Ar ddechrau tymor 2

25% o'r ffioedd dysgu

Ar ddechrau tymor 3

50% o'r ffioedd dysgu

Beth allaf ei gael?

Grant Ffioedd

Beth yw diben hwn?

Mae'n talu'r gwahaniaeth rhwng uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael a'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.

Faint allaf ei gael?

Hyd at £4,800.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd.

Unrhyw beth arall?

Byddwn yn talu'ch Grant Ffioedd i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol, ar yr un pryd ag y byddwn yn talu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu.

Ni allwch gael Grant Ffioedd os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat.



Benthyciad Cynhaliaeth

Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu costau byw fel bwyd, llyfrau, rhent a chostau eraill pan fyddwch yn astudio.

Faint allaf ei gael?

Mae'r swm y gallwch ei gael yn ddibynnol ar incwm eich cartref a ble fyddwch chi'n byw pan fyddwch yn astudio.

Byw gyda rhieni	Hyd at £5,529
Astudio yn Llundain a heb fod yn byw gyda rhieni	Hyd at £10,007
Astudio rhywle arall a heb fod yn byw gyda rhieni	Hyd at £7,143
Byw ac astudio mewn gwlad dramor fel rhan o'ch cwrs yn y Deyrnas Unedig	Hyd at £8,517

Diben eich Benthyciad Cynhaliaeth yw cynnig taliad yn ystod yr egwyl rhwng blynyddoedd academiaidd. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gostwng swm y Benthyciad Cynhaliaeth y gallwch ei gael yn ystod blwyddyn olaf eich cwrs.

Byw gyda rhieni	Hyd at £5,006
Astudio yn Llundain a heb fod yn byw gyda rhieni	Hyd at £9,112
Astudio rhywle arall a heb fod yn byw gyda rhieni	Hyd at £6,617
Byw ac astudio mewn gwlad dramor fel rhan o'ch cwrs yn y Deyrnas Unedig	Hyd at £7,408

Gallwch gael gwybod sut mae incwm eich cartref yn effeithio ar y swm y gallwch ei gael ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Beth allaf ei gael?

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Bydd, ond dim ond ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs ac mae'ch incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu, sef £25,000 y flwyddyn, £2,083 y mis neu £480 yr wythnos ar hyn o bryd.

Unrhyw beth arall?

Rhaid i chi fod dan 60 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs er mwyn cael Benthyciad Cynhaliaeth.

Gallwch wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru hefyd er mwyn helpu talu'ch costau byw, ond byddwn yn gostwng swm y Benthyciad Cynhaliaeth y gallwch ei gael gymaint â 50c am bob £1 o grant y byddwch yn ei gael, hyd at uchafswm o £2,580.

Byddwn yn talu'ch Benthyciad Cynhaliaeth i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol ar ffurf tri rhandaliad, ar ddechrau pob tymor fel arfer.



Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu costau byw megis bwyd, llyfrau, rhent a chostau eraill pan fyddwch yn astudio.

Faint allaf ei gael?

Gallech gael hyd at £5,161, yn ddibynnol ar incwm eich cartref.

Incwm y cartref	Faint?
£18,370 neu lai	Grant llawn o £5,161
Rhwng £18,370 a £50,020	Grant rhannol
Dros £50,020	Dim grant

Gallwch gael gwybod sut y mae incwm eich cartref yn effeithio ar yr hyn y gallwch ei gael ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar ac yn cael gordaliad. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu swm y gordaliad a dalwyd i chi yn gynharach a chyn y bydd eich incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu.

Unrhyw beth arall?

Os byddwch yn cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, byddwn yn gostwng swm y Benthyciad Cynhaliath y gallwch ei gael.

Byddwn yn talu'ch Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar ffurf tri rhandaliad, ar ddechrau pob tymor fel arfer, ynghyd ag unrhyw Fenthyciad Cynhaliath.

Beth allaf ei gael?

Grant Cymorth Arbennig

Mae'r Grant Cymorth Arbennig yn disodli Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr mewn amgylchiadau penodol.

Efallai y gallech gael Grant Cymorth Arbennig:

- os ydych yn rhiant sengl neu'n rhiant maeth sengl sydd â phlentyn neu berson ifanc dan 20 oed ac sy'n cael addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch neu sydd ar gwrs hyfforddiant wedi'i gymeradwyo,
- os oes gennych chi bartner sy'n fyfyrwr hefyd ac mae un ohonoch neu'r ddau ohonoch yn cynnal plentyn neu berson ifanc dan 20 oed sy'n cael addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch neu sydd ar gwrs hyfforddiant wedi'i gymeradwyo,
- os oes gennych chi anabledd ac os ydych yn gymwys i gael Premiwm Anabledd neu Bremiwm Anabledd Difrifol,
- os ydych yn fyddar ac yn gymwys i gael Lwfansau i Fyfrwyr Anabl,
- os oes meddyg wedi cadarnhau na fu modd i chi weithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos o leiaf,
- os oes gennych chi anabledd ac os ydych yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm,

- os ydych yn dymuno dychwelyd i gwrs ar ôl cymryd amser i ffwrdd o'r cwrs hwnnw o ganlyniad i salwch neu gyfrifoldeb gofalu sydd wedi dod i ben erbyn hyn,
- os ydych chi'n 60 oed neu'n hŷn,
- os ydych yn gallu cael budd-dal tai neu elfen dai'r Credyd Cynhwysol,
- os ydych yn gallu cael Taliad Annibyniaeth Personol,
- os ydych yn gallu cael Lwfans Byw i'r Anabl, neu
- os ydych yn gallu cael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs megis llyfrau, offer, costau teithio neu ofal plant.

Faint allaf ei gael?

Gallech gael hyd at £5,161, yn ddibynnol ar incwm eich cartref.

Byddwn yn cyfrifo'r swm y gallwch ei gael yn yr un ffordd â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar ac yn cael gordaliad. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu swm y gordaliad a dalwyd i chi yn gynharach a chyn y bydd eich incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu.

Unrhyw beth arall?

Os ydych yn gallu cael Grant Cymorth Arbennig, ni fyddwch yn gallu cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru hefyd. Ond, ni fydd yn effeithio ar swm y Benthyciad Cynhaliath y gallwch ei gael.

Ni fydd Canolfan Byd Gwaith ac adran budd-daliadau eich awdurdod lleol yn ystyried y Grant Cymorth Arbennig pan fyddant yn cyfrifo'ch hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu'r Grant Cymorth Arbennig, dylech:

- gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 15, neu
- siarad â'r cynghorydd myfyrwyr yn eich prifysgol neu goleg.



Beth allaf ei gael?

Help ychwanegol

Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl (DSAs)

Mae DSAs yn helpu talu'r costau ychwanegol y gallai fod gofyn i chi eu talu o ganlyniad i'ch anabled, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia.

Gall DSAs helpu talu am offer arbenigol, helpwyr anfeddygol, costau teithio a chostau ychwanegol eraill. Bydd y swm y gallwch ei gael yn ddibynnol ar eich anghenion, nid incwm eich cartref.

Am ragor o wybodaeth, lawrlwythwch 'Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl' ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Grantiau Dibynyddion

Grant Gofal Plant (CCG)

Mae CCG yn helpu talu costau gofal plant os oes gennych chi blant dibynnol dan 15 oed ar ddechrau eich cwrs (neu dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig) ac os ydynt yn cael gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Gall hyn gynnwys plant a enir yn ystod y flwyddyn academaidd.

Gallwch gael 85% o'ch costau gofal plant, hyd at uchafswm o £161.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu £274.55 yr wythnos ar gyfer dau o blant neu fwy.

Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)

Mae PLA yn helpu talu costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs os oes gennych chi blant dibynnol. Gallwch gael hyd at £1,557 y flwyddyn, yn ddibynnol ar incwm eich cartref.

Grantiau Oedolion Dibynnol (ADG)

Mae ADG yn helpu talu unrhyw gostau ychwanegol y gallai bod gofyn i chi eu talu os oes gennych chi oedolyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Gallwch gael hyd at £2,732 y flwyddyn, yn ddibynnol ar incwm eich cartref.

Am ragor o wybodaeth, lawrlwythwch y canllaw 'Grantiau Dibynyddion' ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Grant Costau Teithio

Mae Grant Costau Teithio yn helpu talu costau teithio os ydych ar leoliad clinigol yn y Deyrnas Unedig neu'n astudio mewn gwlad dramor fel rhan o'ch cwrs.

Mae'n talu costau teithio rhesymol yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Efallai y gallech gael bwrsariaeth neu ysgoloriaeth gan eich prifysgol neu goleg. Trowch at eu gwefan am fanylion.

Newidiadau i'ch amgylchiadau

Os bydd unrhyw rai o'ch manylion yn newid ar ôl i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr, bydd angen i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd oherwydd y gallai hyn effeithio ar y cyllid y gallwch ei gael.

Ym mwyafrif yr achosion, byddwch yn gallu diweddarau'ch cais.

Cyn dechrau'ch blwyddyn academiaidd newydd, gallwch ddefnyddio'ch cyfrif ar-lein i wneud newidiadau:

- i'ch dewis o gwrs
- i'ch dewis o brifysgol neu goleg
- i swm y benthyciad yr ydych yn gwneud cais amdano
- i'ch manylion personol

Gallwch ddefnyddio'ch cyfrif ar-lein i wneud newidiadau i'ch manylion personol ar ôl i'ch blwyddyn academiaidd newydd gychwyn hefyd. Ond os bydd unrhyw newidiadau i'ch cwrs, dylech gysylltu â ni i roi gwybod i ni, a gofyn i'ch prifysgol neu goleg ddweud wrthym hefyd.

Os bydd newid i'ch manylion yn golygu eich bod yn cael gordaliad, bydd angen i chi ad-dalu unrhyw arian nad ydych yn gymwys i'w gael. Yn yr achos hwn, ni fydd y trothwy ad-dalu yn berthnasol ac efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu swm y gordaliad a dalwyd i chi yn gynharach.

Beth am ad-daliadau?

Ni fyddwch yn dechrau ad-dalu'ch benthyciad nes i chi orffen neu adael eich cwrs ac mae'ch incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu, sef £25,000 y flwyddyn, £2,083 y mis neu £480 yr wythnos ar hyn o bryd.

Ffeithiau allweddol am ad-dalu

- Mae ad-daliadau yn seiliedig ar eich incwm, nid y swm y byddwch yn ei fenthycia.
- Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros y trothwy ad-dalu.
- Mae'ch incwm yn cynnwys eich cyflog ac unrhyw ffynonellau incwm eraill sydd gennych, er enghraifft pensiwn neu incwm rhentu.
- Os ydych yn gyflogedig, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol ar yr un pryd â threth ac Yswiriant Gwladol. Os ydych yn hunangyflogedig, byddwch yn talu ad-daliadau ar yr un pryd ag y byddwch yn talu eich treth.
- Codir llog arnoch o'r diwrnod pan fyddwn yn talu'r taliad cyllid i fyfyrwyr cyntaf i chi neu i'ch prifysgol neu goleg, nes yr ad-dalir eich benthyciad yn llawn neu nes caiff ei ganslo. Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Manwerthu y Deyrnas Unedig* a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar eich amgylchiadau.
- Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid i adlewyrchu hyn.

* Mae'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn mesur chwyddiant yn y Deyrnas Unedig. Mae'n mesur newidiadau i gost byw yn y Deyrnas Unedig.

- Os bydd eich incwm yn gostwng dan y trothwy ad-dalu neu os byddwch yn stopio gweithio, ni fyddwch yn ad-dalu unrhyw beth nes bydd eich incwm dros y trothwy unwaith eto.
- Os ydych yn bwriadu byw, gweithio neu deithio mewn gwlad dramor ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni. Bydd yn rhaid i chi dalu ad-daliadau o hyd, ond gallai'r trothwy fod yn wahanol, yn ddibynnol ar y wlad yr ydych ynddi.
- Caiff unrhyw fenthyciad sydd heb ei dalu 30 o flynyddoedd ar ôl yr adeg pan oedd gofyn i chi ddechrau ei ad-dalu, ei ganslo.

Am ragor o wybodaeth ynghylch ad-dalu'ch benthyciad, ewch i www.slc.co.uk/repayment

Canslo rhannol

Gallai hyd at £1,500 gael ei dynnu oddi ar falans eich benthyciad myfyriwr pan fyddwch yn dechrau ad-dalu.

Mae'r swm yn ddibynnol ar swm y Benthyciad Cynhalieth yr ydych wedi'i fenthycia pan fyddwch yn dechrau ad-dalu. Os byddwch wedi benthycia llai na £1,500, bydd Llywodraeth Cymru yn canslo'r balans sy'n weddill. Os byddwch wedi benthycia mwy, tynnir £1,500 oddi ar eich benthyciad.

Dim ond unwaith y gallwch fanteisio ar y cyfleuster canslo rhannol.

Rhaid i'r trefniant canslo rhannol gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyllid Myfyrwyr Cymru

Am ragor o wybodaeth ac er mwyn ymgeisio, ewch i

www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Gallwch ein ffonio hefyd ar **0300 200 4050** (ffôn testun **0845 603 1693**) rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)

Gallwch gael mwy o wybodaeth o wefan yr NUS sef

www.nus.org.uk/nus-wales

Scholarship Search UK

Gallwch gael gwybodaeth am ffynonellau cyllid eraill i raddedigion ar

www.scholarship-search.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)

Mae NASMA yn elusen sy'n darparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar

www.nasma.org.uk

Rhestr gyfeirio

Ticiwch bob cam er mwyn sicrhau y byddwch yn cael eich arian pan fyddwch yn dechrau eich blwyddyn academaidd newydd.

- 1 Rydw i wedi darllen y canllaw hwn ac wedi darllen yr wybodaeth a'r arweiniad ychwanegol yn www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk
- 2 Rydw i'n gwybod sut i ailymgeisio am gyllid i fyfyrwyr a phryd mae'r dyddiad cau.
- 3 Rydw i wedi mewngofnodi i'm cyfrif cyllid i fyfyrwyr ac wedi ailymgeisio cyn y dyddiad cau.
- 4 Rydw i wedi mewngofnodi i'm cyfrif gan sicrhau y nodir fy manylion diweddaraf yno.
- 5 Rydw i wedi mewngofnodi i'm cyfrif i fwrw golwg ar gynnydd fy nghais.
- 6 Rydw i wedi dangos fy llythyr Hawl i gael Cyllid i Fyfyrwyr i'm prifysgol neu goleg ac rydw i wedi cofrestru.
- 7 Talwyd fy arian.

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiau o'r canllaw hwn ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**.

Gallwch hefyd archebu ffurflenni a chanllawiau mewn Braille, print mawr neu sain trwy anfon e-bost yn cynnwys eich manylion ac yn nodi pa ffurflen a fformat rydych ei hangen at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer mai dim ond gyda cheisiadau am fersiynau amgen o ffurflenni a chanllawiau y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn hwn ddelio â nhw.

© Argraffydd a Rheolwr y Frenhines o HMSO 2018.

Cynhyrchwyd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu rhannau o'r ddogfen hon i ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â **HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk**

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer arweiniad yn unig ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.

WG34246

ISBN: 978-1-78903-612-1